# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 07-08)

**Dyddiad y Cyfarfod: 11 Mawrth 2008**
**Amser y Cyfarfod: 8.15am**
**Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

### Teitl: Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008

**Diben:** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ynghylch y gwelliannau a wnaed i'r Mesur yn ystod Cyfnod 2.

**Cefndir**

1. Yn ystod mis Hydref 2007 bu'r pwyllgor yn ystyried, yn unol â'i bwerau o dan Reol Sefydlog 15.3, y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) a chasglwyd tystiolaeth gan:

Alan Trench, Uwch Gymrawd Ymchwil, Coleg Prifysgol Llundain, ar ran Cymru Yfory;

Kay Powell, cyfreithiwr a Chynghorydd Polisi, Cymdeithas y Cyfreithwyr;

Edwina Hart AC OBE, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Derbyniwyd ac ystyriwyd tystiolaeth gan Gymru Yfory a Chymdeithas y Cyfreithwyr a gohebiaeth gan y Gweinidog hefyd.

2. Cyflwynodd y pwyllgor adroddiad ar y Mesur arfaethedig drafft gyda'r argymhellion a ganlyn:

**"Argymhelliad (2)**

**23**. **Mae'r Pwyllgor yn cadw'r hawl i edrych ar y Mesur hwn eto pan fydd**

**yn cael ei ystyried yng Nghyfnod 2.**

**Argymhelliad (3)**

**24. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r set gyntaf o Reoliadau, a fydd yn gosod y patrwm at y dyfodol hyd y gellir gweld, ddilyn y weithdrefn 'uwch-gadarnhaol'; ac y dylai Rheoliadau dilynol ddilyn y gweithdrefnau a nodir yng ngholofn 6 o'r Tabl yn Atodiad G."**

Mae Atodiad G wedi'i atodi.

2. Cynhaliwyd Cyfnod 2 y Mesur arfaethedig ar 4 ac 11 Mawrth. Cafodd gwelliannau'r Llywodraeth i adran 11 eu cyflwyno a chytunwyd arnynt. Geiriad yr adran erbyn hyn yw (mae'r gwelliannau y cytunwyd arnynt wedi eu tanlinellu):

**"11 Gorchmynion a rheoliadau**

(1) Mae unrhyw bŵer i wneud gorchymyn neu reoliadau a roddir gan y Mesur hwn yn arferadwy gan offeryn statudol.

(2) Mae unrhyw bŵer gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer-

(a) i wneud darpariaeth sy'n rhoi neu'n gosod swyddogaethau sy'n cynnwys

arfer disgresiwn;

(b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion

penodol;

(c) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol; a

(d) i wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, arbed neu drosiannol y

mae Gweinidogion Cymru yn barnu ei bod yn addas.

(3) Caniateir arfer unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau neu orchmynion o dan y Mesur hwn (yn ogystal â bod yn arferadwy mewn perthynas â phob achos y mae'n ymestyn iddo) mewn perthynas â'r holl achosion hynny yn ddarostyngedig i eithriadau neu mewn perthynas ag unrhyw achos neu ddosbarth ar achos.

(4) Mae unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Mesur hwn yn ddarostyngedig i'w ddirymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(5) Nid yw is-adran (4) yn gymwys i reoliadau y mae is-adran (6) yn gymwys iddynt.

(6) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sydd-

(a) yn cynnwys rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 12 sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw ran o destun Deddf Seneddol neu un o Fesurau'r Cynulliad, neu

(b) yn cynnwys y rheoliadau cyntaf o dan adran 1(1), neu

(c) yn cynnwys rheoliadau yn gwneud darpariaeth o dan adran 1(4)(b), adran 1(5), adran 3 neu adran 5, neu

(d) yn cynnwys y rheoliadau cyntaf i wneud darpariaeth o dan adrannau 2, 4, 6, 7 neu 9,

oni bai i ddrafft o'r offeryn gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(7) Nid oes dim yn y Mesur hwn i'w ystyried fel petai'n cyfyngu ar gyffredinolrwydd adrannau 1(1) a 12(1)."

**Effaith y Gwelliant** 3. Effaith yr is-adran (6)(c) newydd yw ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i bob rheoliad sy'n gwneud darpariaeth o dan adran 1(4)(b), adran 1(5), adran 3 ac adran 5 gael ei wneud o dan y weithdrefn gadarnhaol. Mae hyn yn bodloni'n rhannol Argymhelliad (3) o adroddiad y pwyllgor, a hynny drwy fodloni'r argymhellion (fel y nodir yn Atodiad G) a wnaed gan y pwyllgor o ran y darpariaethau penodol hyn. 4.  Effaith yr is-adran (6)(d) newydd yw ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau cyntaf sy'n gwneud darpariaethau o dan adrannau 2, 4, 6, 7 neu 9, gael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol. Bydd y weithdrefn negyddol yn gymwys wedi hynny. Mae hyn yn bodloni'n rhannol Argymhelliad (3) o adroddiad y pwyllgor, a hynny drwy fodloni'r argymhellion (fel y nodir yn Atodiad G) a wnaed gan y pwyllgor o ran y darpariaethau hyn. 5.  Fodd bynnag, roedd Argymhelliad (3) y pwyllgor hefyd yn argymell y dylai'r set gyntaf o reoliadau, a fydd yn gosod y patrwm at y dyfodol hyd y gellir gweld, ddilyn y weithdrefn 'uwch-gadarnhaol'; ac y dylai Rheoliadau dilynol ddilyn y gweithdrefnau a nodir yn Atodiad G. Nid yw'r elfen hon o Argymhelliad (3) wedi'i chynnwys yng ngwelliannau'r Llywodraeth a nodir uchod. **Cyfnod 3** 6. Mae Cyfnod 3 y Mesur arfaethedig wedi dechrau a chaiff ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Mai 2008. Gall unrhyw Aelod gyflwyno unrhyw welliannau i'w hystyried yn ystod Cyfnod 3. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwelliannau yw pum niwrnod gwaith cyn iddynt gael eu hystyried hy 19 Ebrill 2008. **Camau i'r pwyllgor eu cymryd** 7. Gofynnir i'r pwyllgor: 7.1  Nodi'r adroddiad hwn; 7.2  Ystyried a yw'n fodlon bod darpariaethau'r Mesur arfaethedig, fel y diwygiwyd yn ystod Cyfnod 2 ac sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, yn briodol; 7.3  Os nad yw'r pwyllgor yn fodlon mewn perthynas â phwynt 7.2 uchod, ystyried a yw am fynd ar drywydd yr elfen honno o Argymhelliad (3) sy'n ymwneud â defnyddio'r weithdrefn uwch-gadarnhaol.   **Gwasanaethau Cyfreithiol** 31_3_08 ATODIAD G

**Y PWYLLGOR IS-DDEDDFWRIAETH**

**Y MESUR ARFAETHEDIG YNGHYLCH GWNEUD IAWN AM GAMWEDDAU'R GIG - PWERAU I WEINIDOGION CYMRU WNEUD DEDDFWRIAETH DDIRPRWYEDIG**

| **(1)**<br>**Yr Adran sy'n rhoi pŵer** | **(2)**<br>**Yr Adran sy'n nodi'r math o ddarpariaeth a wneir** | **(3)**<br>**Disgrifiad o'r ddarpariaeth a wneir gan y pŵer** | **(4)**<br>**Gweithdrefn Cynulliad (Mesur Arfaethedig fel y'i gosodwyd)** | **(5)**<br>**Gweithdrefn Cynulliad (cynnig y Gweinidog) - os yw'n wahanol i golofn (4)** | **(6)**<br>**Gweithdrefn Cynulliad - wedi'i argymell gan y Pwyllgor** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1(1) | 1(4)(b) | Nodi'r cyrff neu'r personau (yn ogystal â phroffesiynolion gofal iechyd) y gellir gwneud iawn o dan y cynllun am unrhyw weithred neu anweithred ganddynt. | Cadarnhaol (y rheoliadau cyntaf) yna negyddol | | Cadarnhaol (pob rheoliad) |
| 1(1) | 1(5) | Nodi pa wasanaethau sy'n "wasanaethau cymwys". | Cadarnhaol (y rheoliadau cyntaf) yna negyddol | Cadarnhaol (pob rheoliad) | Cadarnhaol (pob rheoliad) |
| 1(1) | 2 | Iawn o dan y rheoliadau, yn cynnwys asesu digollediad a therfynau unrhyw ddigollediad a darparu camau unioni eraill. | Cadarnhaol (y rheoliadau cyntaf) yna negyddol | | Cadarnhaol (y rheoliadau cyntaf) yna negyddol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1(1) | 3 | Ymofyn am iawn, yn cynnwys pwy all wneud cais, sut i wneud cais, y terfyn amser o ran gwneud cais a'r amgylchiadau lle nad yw'n bosibl gwneud cais. | Cadarnhaol (y rheoliadau cyntaf) yna negyddol | Cadarnhaol (pob rheoliad) | Cadarnhaol (pob rheoliad) |
| 1(1) | 4 | Gosod dyletswyddau ar y rheini sy'n ymchwilio i achosion neu'n adolygu achosion i ystyried a oes modd gwneud iawn ac os felly, i gymryd y camau penodol. | Cadarnhaol (y rheoliadau cyntaf) yna negyddol | | Cadarnhaol (y rheoliadau cyntaf) yna negyddol |
| 1(1) | 5 | Gwneud darpariaeth ynghylch sut y gwneir iawn, yn cynnwys sut y cynhelir ymchwiliadau a chan bwy, sut y caiff setliadau eu gwneud a'u hystyried, darparu adroddiadau ar ymchwiliadau ac ildio'r hawl i godi achos yn y llys ar ôl derbyn cynnig. | Cadarnhaol (y rheoliadau cyntaf) yna negyddol | | Cadarnhaol (pob rheoliad) |
| 1(1) | 6 | Galluogi'r terfynau amser statudol ar gyfer atal dros dro geisiadau a gyflwynir mewn llysoedd tra bo cais am iawn o dan y cynllun yn cael ei ystyried. | Cadarnhaol (y rheoliadau cyntaf) yna negyddol | | Cadarnhaol (y rheoliadau cyntaf) yna negyddol |
| 1(1) | 7 | Y modd o ddarparu cyngor cyfreithiol ac arbenigol di-dâl i'r rheini sy'n ceisio iawn. | Cadarnhaol (y rheoliadau cyntaf) yna negyddol | | Cadarnhaol (y rheoliadau cyntaf) yna negyddol. |
| 1(1) | 9 | Galluogi dyletswyddau mewn perthynas â rhoi'r cynllun iawn ar waith i gael eu rhoi i bersonau neu gyrff penodol o fewn y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru. | Cadarnhaol (y rheoliadau cyntaf) yna negyddol | | Cadarnhaol (y rheoliadau cyntaf) yna negyddol |
| 12(1) | 12 | Darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed, yn cynnwys newidiadau i Ddeddfau Seneddol a Mesurau a basiwyd eisoes (neu yn yr un flwyddyn) â'r Mesur hwn. | Cadarnhaol os yw rheoliadau'n newid Deddf Seneddol neu Fesur Cynulliad, neu negyddol fel arall. | | Negyddol, oni bai bod cynnwys y rheoliadau'n nodi'n wahanol |
| 14(3) | 14 | Y pŵer i ddod â'r mesur i rym drwy Orchymyn Cychwyn. | Dim | | Dim -<br><br>**Nodyn:** Mae'r Pwyllgor yn argymell na ddylid cychwyn y Mesur nes bod y rheoliadau ar gael ar gyfer craffu arnynt. |